| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad**<br>**Ivan Butler - Pennaeth Adain Archwilio Mewnol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler - Pennaeth Adain Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Y SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig i dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn ailstrwythuro diweddar o fewn y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I’r Pwyllgor gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae’r Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol llunio a chynnal Siarter Archwilio Mewnol yn gyfredol.

4.2 Mae’r Siarter yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgarwch yr adain archwilio mewnol ac mae’n cynnwys manylion:

- y diffiniad o archwilio mewnol;
- llinellau atebolrwydd Pennaeth Archwilio Mewnol;
- hawliau mynediad Archwilio Mewnol;
- cwmpas gwaith Archwilio Mewnol;
- strwythur ac adnoddau Archwilio Mewnol; a
- chyfrifoldebau archwilydd mewnol.

4.3 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. Gan fod y Siarter bresennol yn hen erbyn hyn yn dilyn

newidiadau i'r strwythur y gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae Siarter ddiwygiedig wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes cyfraniad uniongyrchol â'r Blaenoriaethau yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn. Mae'n un o ofynion y PSIAS bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Siarter.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amh - nid oes unrhyw gostau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amh - nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori ar yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os nad yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter, efallai y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei feirniadu am beidio â chydymffurfio â'r PSIAS.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes unrhyw bŵer penodol sy'n gysylltiedig â penderfyniad hwn, ond mae'r PSIAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo'r Siarter.